PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU
CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

DYDDIAD 1 RHAGFYR 2021

PWNC

ADOLYGIAD COFRESTR RISG CHWARTER 4 2021

ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

Cymeradwyo'r diwygiadau i Gofrestr Risg PPC

RHESYMAU:

Crëwyd a chymeradwywyd Cofrestr Risg Partneriaeth Pensiwn Cymru gan y CBLl ar 17 Gorffennaf 2020. Mae'r Gweithgor Swyddogion wedi cynnal adolygiad chwarterol o'r gofrestr, gan edrych ar yr adran Buddsoddiadau a Pherfformiad, risgiau I.1 i I.9.

Awdur yr Adroddiad:	Swydd:	Rhif Ffôn: 01267 224160
Chris Moore	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol **Cyngor Sir Gâr**	**E-bost:** CMoore@carmarthenshire.gov.uk

CRYNODEB GWEITHREDOL
CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

DYDDIAD 1 RHAGFYR 2021

ADOLYGIAD COFRESTR RISG CHWARTER 4 2021

CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Mae PPC wedi creu Cofrestr Risg, sef y modd y mae risgiau yn cael eu dogfennu, eu rheoli a'u monitro. Pwrpas Cofrestr Risg y PPC yw:

- Amlinellu risgiau a ffactorau allweddol PPC a allai gyfyngu ar ei allu i gwrdd â'i amcanion
- Meintoli difrifoldeb a tebygolrwydd y risg sy'n wynebu PPC
- Rhoi crynodeb o strategaethau rheoli risg PPC
- Monitro arwyddocâd parhaus y risgiau hyn a'r gofyn am strategaethau lliniaru risg pellach

Cymeradwywyd y Gofrestr Risg wreiddiol gan y CBLl ar 17 Gorffennaf 2020. Y GS sy'n gyfrifol am gynnal a chadw Cofrestr Risg PPC ac adrodd yn ôl ar unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau i'r CBLl yn chwarterol.

Yn ystod y chwarter diwethaf, cynhaliwyd adolygiad o'r risgiau Buddsoddiadau a Pherfformiad, risgiau I1 i I9. Mae'r daflen sydd ynghlwm yn rhoi crynodeb o ddeilliannau adolygu pob risg.

Mae gan y GS Is-grŵp Risg PPC penodol i gymryd perchnogaeth o Gofrestr Risg PPC ac adolygiad chwarterol y ddogfen hon. Bydd yr adolygiad nesaf yn cael ei gynnal yn Ch1 2022 a bydd yn canolbwyntio ar risgiau G.1 i G.8 yn yr adran Llywodraethu a Rheoleiddio Risgiau.

.

ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?	**OES**

GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldeb **OES**	Cyfreithiol **DIM**	Cyllid **DIM**	Materion Rheoli Risg **DIM**	Goblygiadau Staffio **DIM**
Polisi Mae'r Gofrestr Risg yn ddogfen ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru.				

YMGYNGHORIADAU

Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma

Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 - Mynediad at Wybodaeth Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn: MANYLIR AR Y RHAIN ISOD		
Teitl y Ddogfen	**Cyfeirnod Ffeil**	**Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN**